**Rhesymeg**

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred CYSAG Gwynedd y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae CYSAG Gwynedd wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae CYSAG Gwynedd felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod CYSAG Gwynedd ar 13 Hydref 2010, penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

**Manylion cyswllt:** (kenrobinson@gwynedd.gov.uk) 01286 679888

**Enw (Clerc CYSAG): Ken Robinson.**

**Cyfeiriad: Swyddfa Addysg Ardal Arfon, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH.**

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

## Enw'r ysgol: Ysgol Gymuned Cwm y Glo

**Addysg Grefyddol**

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

1. Mae gwaith y mwyafrif o'r disgyblion yn raenus ac yn dangos diddordeb yn y maes, ond mae lle i wella eto mewn perthynas â herio'r disgyblion sydd ar frig CA2.
2. Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn adrodd bod ganddynt ddiddordeb yn y maes. Mae ganddynt ddiddordeb arbennig mewn astudio crefyddau mawr y byd.
3. Mae adroddiad arolygiad Estyn, a gynhaliwyd yn Nhachwedd 2010, yn adrodd bod y disgyblion yn 'foesgar ac yn gwrtais' ac yn 'dangos parch, gofal a chonsyrn yn eu perthynas â'i gilydd'.
   http://www.estyn.gov.uk/download/publication/182882.7/adroddiad-arolygiad-ysgol-gymuned-cwm-y-glo-cym-2010/
4. Mae ymwybyddiaeth y plant o storïau crefyddol a rheolau cymdeithas yn amlwg wrth iddynt berfformio i rieni/gwarcheidwaid, y Llywodraethwyr a'r gymuned ehangach yn ystod gwyliau crefyddol.
5. Mae ymwybyddiaeth y mwyafrif o'r disgyblion o nodweddion a defnydd o addoldai yn dda.

**Materion i gael sylw**

1. Modelu cwestiynau a chwestiynu mwy pen agored i'r disgyblion a'u hannog i'w defnyddio mewn trafodaethau ar y cwestiynau mawr ac wrth fyfyrio ar eu gwaith.
2. Ymestyn ymhellach y disgyblion sydd ar frig CA2, yn benodol dulliau cofnodi amrywiol a diddorol.

| Rhagorol | | Da | ✓ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

1. Rhoddir amser digonol i addysgu addysg grefyddol drwy'r ysgol.
2. Mae gwybodaeth bynciol yr athrawon yn dda, ac mae gan y cyd-lynydd arbenigedd a diddordeb amlwg yn y pwnc.
3. Mae'r ysgol yn ymateb i anghenion DPP pan gyfyd yr angen i wneud hynny yn sgil y broses hunan arfarnu, e.e. HMS clwstwr i'r cyd-lynydd ar Ionawr 31[ain].
4. Cadeirydd y Corff Llywodraethol yw'r sawl sy'n gyfrifol am oruchwylio'r pwnc yn yr ysgol, ac fe wneir hynny'n rheolaidd yn unol ag amserlen hunan arfarnu'r ysgol.
5. Mae'r rhaglen astudio yn gytbwys ac fe roddir sylw i bob maes.
6. Mae'r disgyblion yn cynllunio eu hunain drwy feddwl am gwestiynau sy'n cydfynd â'r thema. Rhoddir sylw rhagorol i lais y plentyn.
7. Defnyddir adnoddau digonol, gan gynnwys arteffactau Canolfan Addysg Grefyddol Prifysgol Bangor a'r llyfrgell.
8. Arsylwyd ar wers thematig, oedd yn cynnwys addysg grefyddol, yn ystod yr arolygiad a gynhaliwyd yn Nhachwedd 2010. Roedd y safonau yn gyson dda.
9. Mae adroddiad arolygiad Estyn, a gynhaliwyd yn Nhachwedd 2010, yn adrodd bod 'pob un o'r athrawon yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddatblygiad cynaliadwy a **dinasyddiaeth fyd-eang** yn llwyddiannus', bod 'defnydd amser cylch yn rhagorol i hyrwyddo medrau personol a chymdeithasol disgyblion' a bod yr ysgol yn 'hyrwyddo datblygiad **ysbrydol**, **moesol**, cymdeithasol a diwylliannol, iechyd a lles disgyblion yn dda'.

**Materion i gael sylw**

1. Astudio mwy o grefyddau gwahanol yn y CS/CA1 – chwarae rôl yn benodol.
2. Parhau i ddatblygu yr astudiaeth o grefyddau eraill yng NgA2.
3. Trefnu ymweliadau i addoldai crefyddau eraill, ac ymweliadau gan ymarferwyr crefyddau eraill.
4. Parhau â'r newidiadau mewn dulliau cyflwyno gwersi yn sgil dyfodiad Cwricwlwm 2008, h.y. dull thematig, a sicrhau bod mwy o bwyslais ar y crefyddol a'r ysbrydol **drwy'r ysgol** yn ystod y cyfnodau thematig hyn.
5. Ymgorffori addysg grefyddol yn system dracio newydd yr ysgol.
6. Gwneud mwy o ddefnydd o'r llyfr 'Cwestiynau Pwysig Mewn Crefydd' gan UWIC – hyfforddiant clwstwr Ionawr 31[ain] wedi amlygu yr angen i wneud hyn.

| Rhagorol | | Da | ✓ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd? | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** ✓ | **Nac ydy** |

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

1. Cyflwynir amrywiaeth o storïau ac mae safon y cyflwyniadau yn dda.
2. Mae'r prif wyliau crefyddol yn cael eu nodi gyda pherfformiadau cyhoeddus gan y disgyblion i rieni/gwarcheidwaid, y Llywodraethwyr a'r gymuned ehangach.
3. Darperir cyfleoedd da a rheolaidd i'r disgyblion fyfyrio a rhyfeddu, e.e. yn ystod cyflwyniadau am waith elusennol fel *Operation Christmas Child*.
4. Dathlir amrywiaeth a pharchir cyfraniadau pawb i gymdeithas drwy gysylltiadau ag, a chyfnodau addoli ar y cyd am, elusen Menter Fachwen, sydd yn gweithio gyda phobl ifanc ac oedolion sydd ag anawsterau dysgu.
5. Cyflwynir cyfnodau addoli ar y cyd rheolaidd gan ymwelwyr arbenigol, megis y Parchedig Robert Townsend a Mr. Andrew Settatree, Swyddog Ieuenctid y capeli lleol.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

1. Y disgyblion i gymryd mwy o ran yn ystod y cyfnodau cyd-addoli arferol/wythnosol.
2. Y disgyblion i gael rhan yn y broses o gynllunio cyfnodau cyd-addoli a chael dewis themau eu hunain.

| Rhagorol | | Da | ✓ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: **Garem Jackson** (Pennaeth)

Dyddiad: Chwefror 9fed 2011

**Amg:**

1. **Hunan arfarniad pynciol addysg grefyddol (Mehefin 2010);**
2. **Hunan arfarniad pynciol addysg grefyddol yn erbyn Safonau Da a Da Iawn CYNNAL (Mehefin 2010);**
3. **Amserlen hunan arfarnu.**